

CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 2 Mehefin 2026, yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau, am 7.00 y.h.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd **Bob Gunton** (Maer)

Y Cynghorwyr **John Cadwaladr, Jo Checkley, Heilyn Williams, Dyfrig Siencyn, Peter Jones, Ray Peters, Nia Wyn Evans, Liz Jones**

Rhys Williams – Clerc

C.20.2026–2027 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorwyr **Ray Peters, Ywain Myfyr, Sion Edwards.**

C.21.2026–2027 DATGAN BUDDIANT PERSONOL YN CODI O UNRHYW FATER YN Y CYFARFOD

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

C.22.2026–2027 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5 MAI 2026

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion.

C.23.2026–2027 MATERION YN CODI O'R COFNODION

1. Cofeb Barhaol – Trychineb Penmaenpool

Cyflwynwyd: Mae angen trafodaethau a chymau gweithredu brys gyda **Pharc Cenedlaethol Eryri** ynghylch atebion i orchuddio'r sgaffaldiau dros dro o amgylch y blwch signal ar y safle. Y Cynghorwyr **Nia Evans** a **Dyfrig Siencyn** i weithredu.

DYDDIAD Y SEREMONI GOFFA: 22 GORFFENNAF 2026 AM 3.00 Y.P. – GOFYNNIR I BOB CYNGHORYDD NODI HYN YN EU DYDDIADURON.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.

2. Grant Gwynedd Ni – Coed Ffynnon Fair

Derbyniwyd dyfynbrisiau ar gyfer seddi cyhoeddus a gwaith yng Nghoed Ffynnon Fair.

Penderfynwyd: Cymeradwyo cost y seddi cyhoeddus o **£888.75** a chymeradwyo'r gwaith penodedig (heb dderbyn y dyfynbris llawn) i gyfanswm o **£6,520.00**, yn amodol ar gymeradwyo'r grant. Nid yw'r costau hyn yn cynnwys TAW.

3. Parc Dolgellau – Trosglwyddo o Bartneriaeth Dolgellau i'r Cyngor Tref

Cyflwynwyd diweddariad gan y Cynghorydd **Dyfrig Siencyn** bod prydles newydd yn cael ei pharatoi gyda mân addasiadau.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.

4. Goleuadau Nadolig

Cyflwynwyd diweddariad gan y Maer ynghylch cynlluniau a gwelliannau i ymestyn cwmpas goleuadau Nadolig 2026. Amcangyfrifir y gost yn **£3,285**.

Penderfynwyd: Cytuno i fwrw ymlaen.

5. Materion yn ymwneud â Meddygfa Caerffynnon

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc yn dilyn cyfarfod diweddar gyda Rheolwr y Practis.

Penderfynwyd: Gofyn i gynrychiolwyr y Cyngor gyfarfod ag uwch Feddyg Teulu'r Feddygfa.

6. Cyfarfod Asiantaeth y Cefnffyrdd – 27.05.2026

Yn bresennol ar ran y Cyngor: Y Cynghorwyr **Bob Gunton, Ywain Myfyr, Dyfrig Siencyn** a'r Clerc.

Cyflwynwyd adborth yn ymwneud â diffyg rheolaeth a llywodraethu contractau gwaith amgylcheddol ar y cefnffyrdd. Nodwyd anghysondebau rhwng ardaloedd o ran caniatáu plannu a strwythurau ar gylchfannau.

Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth a symud ymlaen â'r materion hyn drwy **Traffig Cymru** ar lefel Llywodraeth Cymru.

C.24.2026–2027 ADRODDIADAU / MATERION CYLLIDOL A LLYWODRAETHU – SWYDD Y DIRPRWY FAER

Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol Mis 2, 2026 (Mai 2026).

Penderfynwyd:

i) Derbyn a chadarnhau'r sefyllfa ariannol. Bydd cyfrifon 2025–2026 yn cael eu rheoli drwy system gyfrifyddu newydd y Cyngor (**Scribe**). Bydd monitro'r gyllideb yn cael ei gynnal bob chwarter yn ystod 2026–2027. Bydd trefniadau cyfarfodydd hybrid yn cael eu treialu yng nghyfarfod Gorffennaf 2026.

Cyflwynwyd yr angen i benodi Dirprwy Faer yn ffurfiol.

ii) Yn dilyn trafodaeth a phleidlais, penodwyd y Cynghorydd **Dyfrig Siencyn** yn Ddirprwy Faer yn ddiwrthwynebiad.

C.25.2026–2027 CYFLE I RANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU

1. Adroddiadau ysgrifenedig gan aelodau'r Cyngor Tref

Adroddiad Diweddaraf y Maer

Cyfarchion, gyd-gynghorwyr.

Mae'r llwyth gwaith bellach yn cynyddu wrth baratoi ar gyfer cyflwyno cais am Grant Gwynedd Ni.

Mae'r ffurflen grant wedi'i pharatoi ac wedi'i hanfon at Steve Beech i'w hadolygu ac i gywiro unrhyw beth a allai ein hanghymhwyso rhag derbyn y grant. Rydym yn aros am dendrau i gael eu cyflwyno er mwyn i chi allu dewis y contractwyr.

Rydym wedi cyhoeddi rhestr o ofynion tendr ar gyfer y canlynol:

- Llwybr caled (hard standing).
- Gatiau newydd (yn anffodus, rhai metel galfanedig, ond ar yr ochr gadarnhaol, ni fydd yr un ohonom byth yn gorfod eu disodli!).
- Atgyweirio'r grisiau ym mhen Bodlondeb y llwybr troed.
- Darparu dau fwrdd picnic (plastig du).

Gyda'm dynion llaw dde (Ray a Myfyr), erbyn i chi ddarllen hwn byddwn wedi tywys dau contractwr o amgylch y goedwig, gan esbonio'r hyn yr ydym ei eisiau – am gyn lleied o arian â phosibl.

Mae'r dyfynbris ar gyfer y goleuadau Nadolig ychwanegol eleni yn £2,385.60. Bydd hyn yn cwblhau'r sgwâr ac yn parhau i lawr y ffordd o'r safle gyferbyn â Bombshell hyd at Swyddfa'r Post.

Mae Myfyr a minnau yn ymchwilio i'r posibilrwydd o osod goleuadau llif ar y bont fawr.

Byddaf yn cyfarfod â'r Asiantaeth Cefnffyrdd ddydd Mercher, gan obeithio y gallaf ei berswadio i wneud Dolgellau yn debyg i Erddi Kew newydd, gyda blodau gwyllt ar hyd yr heol osgoi.

Byddaf yn gwneud pob ymdrech i drefnu cyfarfod gyda CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) i fynd i'r afael â'u pryderon ac i weld a oes ganddynt unrhyw gynlluniau neu gymorth a allai ein helpu i gynyddu ein cyfraniad at fioamrywiaeth.

Bu "triawd Last of the Summer Wine", ynghyd â dau aelod o'r cyhoedd, yn torri'r glaswellt ar Ffordd Arran, ac mae hynny'n gwneud i'r ardal edrych yn daclus ac yn ofalus.

Bûm hefyd yn mynychu hyfforddiant diddorol ar archwiliad diwedd blwyddyn. Byddwn yn cynghori aelodau'r pwyllgor cyllid i fynychu'r cwrs ar-lein, os nad am ddim arall, yna er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd ynghlwm wrth y broses a faint o waith sydd ynghlwm wrthi i Rhys.

Y Cynghorydd Nia Wyn Evans – Prosiect "Lle yn y Dref"

Penodwyd dau unigolyn i gyflawni gwaith a thasgau dros dro.

C.26.2026–2027 ADRODDIADAU GAN GYNGHORWYR CYNGOR GWYNEDD

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Adroddwyd am broblemau parcio yng Nghae Deintir, Pencefn a Ffordd Cader. Disgwylir ymatebion gan Gyngor Gwynedd.

Materion yn ymwneud â thyllau archwilio ger Scotts Jewellers.

Pryderon ynghylch y terfyn cyflymder 30mya ar hen Ffordd Tywyn ac o gyfeiriad y White Hut.

Mae'r gwahaniaethau yn oriau agor Swyddfa'r Post Dolgellau yn Siop Spar yn achosi dryswch ac anghyfleustra.

Mae trafodaethau'n parhau ynghylch cynllunio Bryn Mair. Bydd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn parhau â'r mater.

Penderfynwyd: Cysylltu â Swyddfa'r Post ynghylch y mater hwn.

C.27.2026–2027 GOHEBIAETH

1. Yr angen am gyfarfod gyda'r Gweithiwr Ieuenctid Lleol

Penderfynwyd: Aildrefnu'r cyfarfod.

2. Cyfoeth Naturiol Cymru – Materion yn ymwneud â phlannu coed ceirios gan y Cyngor Tref ar Marian Mawr

Penderfynwyd: Gofyn am gyfarfod safle gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

C.28.2026–2027 MATERION CYNLLUNIO

Rhif Cais: NP5/57/34D

Addasiadau ac estyniad i swyddfeydd presennol a chaffi'r Farchnad Da Byw, Ffordd y Bala, Dolgellau, LL40 2YF.

Cyfeirnod Grid: **273148 318063**

Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.